# Llên y Llysieuwyr


## Dewi Jones, Dyffryn Nantlle

CAWN, o gymharu rhai o'r hen lyfrau *Herbal* meddyginiaethol traddodiadol â'r rhai a elwir yn *Floras*, sef detholiad sy'n cofnodi dosbarthiad daearegol llystyfiant sir neu ardal, gipolwg ar y gwahaniad a ddigwyddodd ym myd llysieuaeth yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er i'r arferiad o gasglu planhigion ar gyfer darparu moddion barhau ymysg y 'doctoriaid dail' gwelwyd gynnydd yng nghasglu'r botanegwyr i'r bwriad o ddysgu mwy am y planhigion.

Roedd y casglu mawr a ddigwyddodd yn y gorffennol yn aruthrol. Cynhaliai'r 'doctoriaid dail' a'r apothecariaid deithiau casglu allan i'r wlad gan gyfeirio atynt fel *'going simpling'* gan gystadlu ar yr un pryd gyda'r botanegwyr 'go iawn' a'r casglwyr ffasiynol a ddaeth i fri yn ystod oes Victoria ymysg y dosbarth canol a'r gweithiol. Doedd wiw i un ohonynt ddatgelu unrhyw fanyldra ynglŷn â safle newydd planhigyn prin rhag iddo gael ei gasglu hyd at ddifancoll, ac o ganlyniad meistrolodd y Victoriaid y grefft o gadw cyfrinachau, fel y gwelir o'r safleoedd amwys a gyfeirir atynt yn aml yn yr hen *Floras*.

### Llyfr yr hen Ddoctor Mynydd

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg trigai dau feddyg, tad a mab o'r un enw, sef


Y

Llysieulyfr Teuluaidd,

YN DANGOS

RHINWEDD MEDDYGOL

AMRYW LYSIAU, &c.

A CHYFARWYDDYD I'W CASGLU,

AC I'W

Cadw yn ddilwgr trwy'r Flwyddyn.

O gyfansoddiad yr enwog

NICHOLAS CULPEPPER, M. D.

WEDI EI HELAETHU GAN DR. PARKINS;

A'I GYFIEITHU I'R CYMRAEG

Gan DAVID THOMAS JONES, Llanllyfni..

Yn cynwys 72 o Ddarluniadau, (Cuts.)

CAERNARFON,

ARGRAFFWYD, DROS Y CYHOEDDWR, GAN P. EVANS.

*Llysieulyfr Teuluaidd.*

David Thomas Jones, yn Hafod yr Esgob, Mynydd Llanllyfni (Nebo bellach). Gwaith y tad yw'r gyfrol a adwaenir yn lleol fel 'llyfr yr hen ddoctor mynydd' sef cyfeithiad o waith Nicholas Culpeper (1616–1654), yr apothecari, herbalydd a'r astrolegwr a gadwai ardd lysieuol yn Stryd y Red Lion, Spitalfields, Llundain. Mae'n amlwg mai at ddefnydd y Cymry uniaith yr anelodd D. T. Jones ei gyfrol, fel y dywed yn ei gyflwyniad 'at y darllenyddion', chwedl yntau:

> *'Ychydig Physygwriaeth deuluaidd wedi ei defnyddio o ddail ein gerddi, ac amrywiol lysiau gwylltion y maesydd; fel y gallo pob dyn na's medr ond darllen Cymraeg yn unig, fod yn Physygwr iddo ei hun: trwy fanwl chwilio y llyfr hwn.'*

Mae fy nghopi i o lyfr yr hen ddoctor



*Ffynnon Doctor Mynydd.*

mynydd wedi ei rwymo mewn lledr, yn mesur tua 7 modfedd wrth 4 ac yn cynnwys 468 o dudlennau a 66 o luniau'r planhigion llesol, wedi eu lliwio yn ddigon amrwd. Argraffwyd ef dros y cyhoeddwr gan Peter Evans yng Nghaernarfon, sy'n awgrymu mai ar ei gost ei hun yr aeth D. T. Jones ati i gyhoeddi ei lyfr. Nid oes dyddiad cyhoeddi wedi ei brintio ar y dudalen deitl, nac ar yr un dudalen arall o'r llyfr, ond o ddal y dudalen lân olaf i'r golau gwelir y flwyddyn 1825 wedi ei dyfrnodi'n glir arni. Bu sawl argraffad o'r llyfr poblogaidd hwn dros y blynyddoedd gyda'r cyhoeddwr blaengar Hugh Humphreys, Caernarfon yn flaenllaw wrth y gwaith erbyn diwedd y ganrif.


Ddylid, yn ôl cyfarwyddyd D. T. Jones, ond casglu'r gwahanol blanhigion ar amser penodol ac mae'n pwysleisio'r pwysigrwydd bod pob un dan ddylanwad y gwahanol blanedau. Mae tabl wedi ei gynnwys i'r perwyl hwnnw yn unol â chyfarwyddiadau Culpeper ac mae'n lleisio'i anfodlonrwydd gyda'r llyfrau sy'n feirniadol o ddaliadau'r hen apothecari:

> *'Y mae amrywiol lyfrau dail yn gwadu yn hollol effeithiau y planedau ar lysiau y maes, ac ar gyrph dynion hefyd, o herwydd eu pellder oddi wrthym ni; ond y maent gwedi llafurio yn hir yn y camgymeriad hwn … Y mae Mr. Culpeper gwedi gorchymyn gwneuthur defnydd o'r Tabl sydd yn dangos pryd i dori y dail yn eu hawr, sef yr awr y mae eu planedau yn eu llywodraethu…'*

Nid yw llyfr yr hen Ddoctor Mynydd yn nodi unrhyw safleoedd lle gellir casglu'r planhigion yn lleol, ond mae'n rhoi ychydig fanylion cyffredinol ynglŷn â'u cynefinoedd ac mae ambell hanesyn difyr wedi goroesi amdano.

Yn ystod dechrau'r ganrif ddiwethaf gwelwyd cardotyn yn galw heibio Hafod yr Esgob ac yn casglu dyrnaid o ddail oddi ar y clawdd gerllaw. Mae'n amlwg bod y dail wedi gwreiddio o rai tebyg a dyfai yng ngardd yr hen ddoctor. Pan ofynwyd i'r cardotyn beth a wnâi â'r dail, yr ateb oedd eu bod yn ddiguro at leddfu dolur gwddw.

*(Parhad ar dudalen 13)*




*Argraffiad Humphreys, Caernarfon yn cynnwys platiau lliw.*